



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cynllun Trydydd Sector Cymru



“ Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod a hyrwyddo'r Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi'r Trydydd Sector am y cyfraniad a wna'r Sector i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor Cymru, a'i phobl a'i chymunedau ”

Adroddiad Blynyddol 2018-19

Gorffennaf 2020



Gwirfoddowyr Achub Mynydd Gorllewin y Bannau yn hyfforddi.

**Cydnabyddiaeth am y lluniau: Cafwyd caniatâd i ddefnyddio pob llun**

# Cynnwys

## Yn yr adroddiad hwn ceir trosolwg o'r modd y rhoddwyd Cynllun y Trydydd Sector ar waith gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2018-19.

Rhagair – Jane Hutt AS, Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip	4
Cipolwg gan y Sector/CGGC	6
<b>1 Diben a chefnidir/Cynllun y Trydydd Sector</b>	<b>7</b>
1.1 Beth yw'r Trydydd Sector?	7
1.2 Cynllun y Trydydd Sector	8
1.3 Ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector	9
<b>2 Beth a ddigwyddodd yn 2018-19</b>	<b>10</b>
2.1 Deialog a Chydweithredu	10
2.2 Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector	11
2.3 Cyfarfodydd Gweinidogion	12
2.4 Ymgynghoriadau	12
2.5 Datblygu Polisi	13
<b>3 Cyllid Llywodraeth Cymru a Chefnogaeth ar gyfer y Trydydd Sector</b>	<b>15</b>
3.1 Cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn 2018-19	17
3.2 Cymorth arall ar gyfer y trydydd sector	18
<b>4 Gwybodaeth bellach</b>	<b>19</b>
<b>Atodiad A</b> (Tabl o Feysydd Diddordeb Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac Arweinwyr Rhwydweithiau)	<b>20</b>

## Astudiaeth Achos

Y Gronfa Gofal Integredig a'r trydydd sector	10
Hawl i Fyw'n Annibynnol – Fframwaith a Chynllun Gweithredu	14

## Rhagair

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y cyfraniad y mae'r Trydydd Sector yn ei wneud i gymunedau a phobl Cymru erioed. Mae'n hanfodol bod y trydydd sector yng Nghymru'n parhau i fod yn fywiog ac amrywiol. Felly, pleser i mi yw cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2018-19 y Trydydd Sector ar y camau a gymerodd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r sector.

Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar amlygu ein cyd-gyflawniadau, hoffwn ddiolch i'r rhai sy'n gweithio yn y sector am eu gwaith anhygoel.

Rydym yn byw mewn cyfnod heriol, gyda phobl yn teimlo eu bod yn colli eu hawliau a'u grym. Mae cyni wedi newid y byd yr ydym ni a'n partneriaid, yn cynnwys y trydydd sector, yn byw a gweithio ynddo, yn llwyr.

Mae rôl y trydydd sector yn bwysicach nag erioed. Yma yng Nghymru mae gennym drydydd sector cryf ac annibynnol sy'n hanfodol gan ei fod yn darparu rhai o'r conglfeini sy'n galluogi'n cymunedau i weithredu a ffynnu.

Mae ein buddsoddiad drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru'n parhau i alluogi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r 19 o Gynghorau Gwirfoddol Cymunedol ledled Cymru i ddarparu, a gwella, y seilwaith allweddol sy'n cefnogi'r sector. Yn arbennig, parhau i ddatblygu systemau digidol allweddol angenrheidiol y mae sefydliadau ar draws y sector eu hangen, i ddod o hyd i wirfoddolwyr a chyllid er mwyn dod yn fwy cydnerth a darparu gwasanaethau yn eu cymunedau.

Mae angen amser i sefydlu'r systemau hyn yn awr, ond maent eisoes yn dechrau dwyn ffrwyth ac mae Adroddiad Effaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru ar gyfer 2018-19 gan CGGC yn dangos hyn.

Un o'r heriau mwyaf a wynebodd pawb yn ystod y flwyddyn oedd yr ansicrwydd ynghylch ein perthynas ag Ewrop. Ym mha bynnag ffurf fydd y berthynas, bydd ansicrwydd parhaus yn achosi aflonyddwch yng Nghymru. Mae'r trydydd sector eisoes yn wynebu mwy o alw am wasanaethau ar adeg pan mae'r amgylchedd cyllido'n newid. Fwy nag erioed rydym angen gwaith partneriaeth da rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, yn cynnwys Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau a rannwn ar gyfer ein cymunedau yng Nghymru.

Mae Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru yn un enghraifft o'r Trydydd Sector yn cyfrannu at ddatblygu a darparu gwasanaethau. Mae'n dangos sut y gall y sector helpu i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus i ddiwallu galw'r presennol a'r dyfodol a sut y gall gyflawni rôl allweddol wrth ddarparu atebion i'r heriau y mae Cymru'n eu hwynebu.

Gan edrych tua'r dyfodol, mae newid yn yr hinsawdd yn fater cynyddol bwysig i gymdeithas a llywodraethau. Dyma faes lle bydd gan y sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr rôl gynyddol. Dyma'r rheswm hefyd pam rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i ddod o hyd i ffyrdd y gall y sector gyfrannu.

Mae'r gallu i gydgysylltu cydweithio ar yr uchelgeisiau a rannwn yn dangos pwysigrwydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a pham rwy'n ymrwymedig i gynnal ei statws fel rhan hanfodol o Gynllun y Trydydd Sector. Rwy'n awyddus hefyd ein bod ni'n parhau i weithio gyda'r sector i ddod o hyd i ffyrdd o wella sut mae'r cynllun yn gweithio.

Fel erioed, rwy'n rhyfeddu ac yn cael fy ysbrydoli'n barhaus gan yr hyn sy'n cael ei gyflawni gan sefydliadau a gwirfoddolwyr y trydydd sector, ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos â phartneriaid y trydydd sector i'n helpu ni i greu'r Gymru a ddymunwn.



*Jane Hutt*

**Jane Hutt AS**

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

# Cipolwg gan y Sector

## Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)

Fel mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru'n gwneud cymaint i wella bywydau unigolion a chymunedau ar draws y wlad i gyd. Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cymryd rhywfaint o'r baich oddi ar ofal sylfaenol; mae grwpiau amgylcheddol yn helpu i wella'r trefi a'r dinasoedd yn ogystal â'r ardaloedd gwledig rydym yn byw ynddynt; ac mae sefydliadau cyngor ac eiriolaeth yn helpu rhai o'n pobl fwyaf agored i niwed gyda chymorth ar feysydd o ddyledion i unigrwydd. Dyma rai enghreifftiau yn unig o effaith y sector gwirfoddol. Mae popeth a wna yn gwneud gwahaniaeth hanfodol.

Fodd bynnag, bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd bron yn siŵr o arwain at gyfnod o aflonyddwch ac ansicrwydd, gan effeithio ar bobl ledled y wlad a'r sector gwirfoddol ei hun. Felly, mae'n bwysicach nag erioed i'r sector gael cefnogaeth i barhau â'i waith, drwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd a thu hwnt, i sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lleihau gymaint â phosibl.

CGGC yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru a'n pwrpas yw galluogi sefydliadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd. Mae hyn yn golygu gweithio mewn partneriaeth – gyda'n haelodau, gyda'r sector gwirfoddol ehangach, gyda seilwaith sector gwirfoddol y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, gyda chyrrff cyhoeddus a phenderfynwyr ar bob lefel – i sicrhau bod gwirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddol yn gallu diwallu anghenion cymunedau yng Nghymru cymaint â phosibl, nawr ac yn y dyfodol.

Caiff hyn ei gyd ei hwyluso gan Gynllun y Trydydd Sector, sy'n egluro ymrwymiad a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r sector gwirfoddol. Mae'r cynllun yn rhoi cyfleoedd i'r sector ymgysylltu â Gweinidogion Cymru a gweision sifil a dylanwadu arnynt i helpu'r sector i greu newid cadarnhaol, gwirioneddol yng Nghymru. Mae CGGC yn cyflawni rôl hanfodol wrth weinyddu'r cynllun i sicrhau bod ein cydweithwyr yn y sector gwirfoddol yn cael y cyfle i gael eu llais wedi'i glywed gan benderfynwyr, yn cynnwys yn ein cyfarfodydd sector bob chwe mis gyda phob Gweinidog a Dirprwy Weinidog. Mae sector gwirfoddol ffyniannus a chynaliadwy o fudd i ni gyd. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod hyn yn bosibl.



**Peter Davies CBE**  
Cadeirydd, CGGC



**Ruth Marks MBE**  
Prif Swyddog  
Gweithredol, CGGC

# 1. Diben a chefnidir / Cynllun y Trydydd Sector

## 1.1 Beth yw'r Trydydd Sector?

Mae'r trydydd sector yn cwmpasu pob agwedd ar brofiadau pobl fwy neu lai. Mae'n cynnwys sefydliadau cymunedol, grwpiau hunangymorth, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau seiliedig ar ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau cydfeddiannol, i enwi dim ond rhai.

Mae gan y trydydd sector amrywiaeth o ffurfiau sefydliadol, yn cynnwys elusennau

cofrestredig ac anghofrestredig, Cwmnïau Cyfyngedig drwy Warant (a all fod yn Elusennau Cofrestredig hefyd), Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus a chymdeithasau anghorfforedig. Mae gan bob sefydliad ei nodau, ei ddiwylliant arbennig a'i werthoedd ei hun, ynghyd â'i ffordd ei hun o wneud pethau, ond maent i gyd yn rhannu rhai nodweddion pwysig, a ddangosir isod.

**Mae'r Trydydd Sector yn cwmpasu bron pob agwedd ar fywyd.  
Mae rhai nodweddion pwysig yn gyffredin rhyngddynt sef:**

Cyrff annibynnol ydyn nhw nad ydyn nhw'n perthyn i lywodraeth ac a sefydlwyd yn wirfoddol gan ddinasyddion sy'n dewis eu trefnu.



Mae gwerthoedd yn bwysig iddyn nhw a chânt eu harwain gan awydd i hyrwyddo amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol yn hytrach na'r awydd i wneud elw.



Ymrwymiad i ail-fuddsoddi'r hyn sydd dros ben i hyrwyddo eu hamcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol.



Rydym yn parhau'n grediniol y dylid ystyried y cyrff sydd â'r nodweddion hyn fel rhai sy'n perthyn i "sector" unigryw.

**Active Across Wales.**

**32,000**

o fudiadau  
gwirfoddol

**£1.258bn**

Incwm  
amcangyfrifedig y  
trydydd sector yng  
Nghymru yn 2018-19

**938,000**

o wirfoddolwyr



## 1.2 Cynllun y Trydydd Sector

Gwneir Cynllun y Trydydd Sector o dan Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud Cynllun sy'n ddatganiad o fwriad Gweinidogion Cymru i gefnogi a hyrwyddo buddiannau sefydliadau gwirfoddol perthnasol, wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau fel Gweinidogion Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2018-19 yn dangos sut y cafodd cynigion a nodwyd yng nghynllun y trydydd sector eu rhoi ar waith yn y flwyddyn ariannol honno.

Mae testun y ddeddfwriaeth i'w weld drwy'r ddolen isod:

[www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/section/74](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/section/74)

Amcan Cynllun y Trydydd Sector yw cael partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector sydd â'r bwriad o'n helpu i ddatblygu a chefnogi prosesau a fydd, yn y pen draw, yn arwain at y canlynol:

- **Cymunedau cryfach a mwy cadarn** – y ffordd y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwneud cyfraniad gwirfoddol at ffyniant ac adfywiad eu cymunedau, darparu gofal a helpu i feithrin hyder a sgiliau pobl; a'r cyfleoedd y mae'r trydydd sector yn eu creu o ran cyflogaeth a mentrau lleol;
- **Polisi gwell** – yr wybodaeth a'r arbenigedd y mae'r trydydd sector yn eu cynnig trwy ei brofiad rheng flaen er mwyn helpu i lunio polisiau, gweithdrefnau a gwasanaethau;
- **Gwasanaethau cyhoeddus gwell** – y rôl arloesol a thrawsnewidiol sydd gan y trydydd sector wrth wneud i wasanaethau cyhoeddus gyrraedd mwy o bobl a dod yn fwy sensitif i'w hanghenion.

### Cynllun y Trydydd Sector

Rhannu syniadau a gwybodaeth



Cynllunio ar y cyd



Monitro a gwerthuso rhaglenni a chynlluniau



Sicrhau arian ar gyfer pob maes polisi



Diddordeb cytûn yn y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn cydweithio â'r Trydydd Sector



Themâu trawsbynciol y cynllun:

- Mynd i'r afael â thlodi
- Datblygu cynaliadwy
- Cydraddoldeb
- Y Gymraeg.



## 1.3 Ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector

Mae disgwyl i holl Aelodau'r Cabinet, Dirprwy Weinidogion a swyddogion hyrwyddo buddiannau'r trydydd sector yn eu gwaith a'r penderfyniadau a wnânt. Mae Cynllun y Trydydd Sector yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i'r canlynol:

- cynnal trefniadau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ystyrlon gyda'r trydydd sector
- cynnal trefniadau ar gyfer cynorthwyo cymunedau a gwirfoddolwyr
- cynnal trefniadau ar gyfer cefnogi strwythurau sy'n caniatáu i'r trydydd sector ffynnu
- ceisio cadw at y Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector (sydd wedi'i gynnwys fel Atodiad i'r Cynllun).

Mae'n ymdrin â threfniadau ar gyfer ymgynghori, gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector, a chyllido hefyd.

Dyma ddolen i'r Cynllun:  
[llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/cynllun-y-trydydd-sector-2014\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/cynllun-y-trydydd-sector-2014_0.pdf)

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi'r trefniadau hyn.



Gwirfoddolwyr cadwraeth ataliol yn helpu i lanhau paentiadau.

## 2. Beth ddigwyddodd yn 2018-19?

**Mae'r Cynllun yn nodi'r trefniadau ffurfiol ar gyfer ymgysylltu mewn 5 maes:**

### 2.1 Deialog a Chydweithredu

Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cytuno ar drefniadau ymarferol, deialog a chyfnewid gwybodaeth. Un enghraifft dda o ble mae hyn wedi gweithio'n ymarferol, ac wedi sicrhau

canlyniadau cadarnhaol i randdeiliaid yn ystod y cyfnod adrodd hwn yw'r Gronfa Gofal Integredig:

# Astudiaeth Achos

## Y Gronfa Gofal Integredig a'r trydydd sector

Nod y Gronfa Gofal Integredig yw hyrwyddo a galluogi gwaith integredig a chydweithredol rhwng gwasanaethau cymdeithasol, y sectorau iechyd a thai, y sector annibynnol a'r trydydd sector. Ar draws y saith rhanbarth yng Nghymru mae'r Gronfa'n ariannu prosiectau a gwasanaethau sy'n darparu iechyd a gofal cymdeithasol di-dor i bobl, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar a helpu pobl i fyw eu bywydau yn eu ffordd eu hunain. Mae'r gronfa'n cefnogi pobl hŷn ag anghenion cymhleth, a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia, pobl ag anabledau dysgu, plant ag anghenion cymhleth; a gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc ac yn fwy diweddar, plant mewn gofal neu mewn perygl o fynd i ofal (o 2019-20).

Mae'r trydydd sector yn bartner strategol allweddol yn y gwaith o ddatblygu a darparu'r rhaglenni a'r prosiectau hyn gan y Gronfa Gofal Integredig. Gellir gweld enghraifft dda o sut mae'r dull cydweithio hwn yn creu darpariaeth gwasanaethau lleol well yng Ngheredigion lle mae cyllid y Gronfa'n cael ei ddefnyddio i ariannu Tîm Adnoddau Cymunedol y trydydd sector. Sefydlwyd y prosiect i alluogi cleifion a chleientiaid i gael eu rhyddhau'n ddiogel ac amserol o ysbytai a chartrefi gofal. Y dull a fabwysiadwyd oedd tîm cydweithredol a oedd yn cynnwys Age Cymru, Cyngor ar Bopeth, Gofal a Thrwsio a'r Groes Goch Brydeinig. Galluogodd y gwasanaeth un atgyfeiriad, gyda'r tîm yn penderfynu pa wasanaethau oedd eu hangen a phwy oedd y gorau i'w darparu. Mae'r tîm yn cefnogi cleifion / cleientiaid am hyd at chwe wythnos, drwy ddarparu ymyriadau sy'n hyrwyddo llesiant, gan alluogi pobl i fod yn fwy gwydn a chadw eu hannibyniaeth.

## 2.2 Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn helpu Llywodraeth Cymru i weithio gyda sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu polisiâu a gwasanaethau gwell. Yn ystod y cyfnod adrodd cadeiriwyd y Cyngor gan y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am Gynllun y Trydydd Sector (Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip). Roedd y Cyngor yn cynnwys cynrychiolwyr rhwydweithiau trydydd sector sy'n gweithio ar draws 25 maes gwaith y trydydd sector a Phrif Swyddog Gweithredol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (gweler Atodiad A).

Yn ystod 2018-19, cydweithiodd y Cyngor a Llywodraeth Cymru i nodi ffyrdd o wella gweithrediad Cynllun y Trydydd Sector.

Mae cofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: [llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-trydydd-sector](http://llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-trydydd-sector)

Ym mis Ionawr 2018 drafftiodd y Cyngor ddogfen 'Prif Ganfyddiadau' a'i datblygu yn eitem agenda i'w thrafod yng nghyfarfod y Cyngor o dan y teitl 'Diwygio'r mecanweithiau ymgysylltu'. Nododd yr adroddiad 12 thema wahanol (yn cynnwys darpariaeth ddigidol, cysylltu Llywodraeth Cymru â chymunedau, ac effaith y cynllun), gyda chyfanswm o 52 awgrym ar gyfer gwella. Bu swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â CGGC i ymateb i'r prif ganfyddiadau hyn a nodi chwe maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu ar y cyd. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys:

- Datblygu Fframwaith Effaith Cynllun y Trydydd Sector – i gyfathrebu gwerth ac effeithiolrwydd y Cynllun yn well
- Gwella dealltwriaeth y trydydd sector a gweision sifil ar sut i lywio'r mecanweithiau ymgysylltu a sefydlwyd o dan y Cynllun
- Adolygu a gwella seilwaith mewnol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu â'r Trydydd Sector

- Adolygu a diwygio'r 'Fframwaith Ymgysylltu' ffurfiol rhwng Gweinidogion Cymru a'r Trydydd Sector
- Gwella ehangder a natur agored cyfranogiad y trydydd sector, gan wneud defnydd gwell o gyfryngau digidol
- Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio mwy effeithiol yn y Cyngor fel ei fod yn galluogi sefydliadau'r trydydd sector i godi materion cydymffurfio allweddol yn erbyn y Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector.

Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn y cynllun gwella ar y cyd ar gyfer 2018-2021 ar wella ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector y cytunwyd arno ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor, a fydd yn llywio'n gwaith yn ystod tymor y llywodraeth hon.

## 2.3 Cyfarfodydd Gweinidogion

Mae gan Gymru enw rhyngwladol haeddiannol am fod yn wlad sy'n hyrwyddo llywodraethu da drwy sicrhau mynediad at lunwyr polisïau a Gweinidogion. Mae'r trydydd sector yn cyfarfod pob Gweinidog yn Llywodraeth Cymru i drafod materion sy'n berthnasol i'w portffolio.

Mae cyfarfodydd Gweinidogion yn ategu ymgysylltu beunyddiol swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr y Trydydd Sector gyda chyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar faterion polisi strategol sy'n effeithio ar fwy nag un rhan o'r trydydd sector.

Yn 2018-19 cynhaliwyd wyth cyfarfod rhwng Gweinidogion Cymru a sefydliadau'r Trydydd Sector dan nawdd Cynllun y Trydydd Sector. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys:

- Newid yn yr hinsawdd
- Gadael yr Undeb Ewropeaidd

- Economi sylfaenol
- Y cwricwlwm newydd

Yn ychwanegol at hyn, ymgysylltodd Gweinidogion Cymru â sefydliadau'r Trydydd Sector mewn nifer o ffyrdd gwahanol y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol hyn – yn cynnwys ymweld â sefydliadau, mynychu digwyddiadau a chynadleddau, a thrwy gyfrwng gohebiaeth neu gyfarfodydd gyda grwpiau neu sefydliadau unigol er mwyn clywed yn fwy penodol am faterion a oedd yn effeithio arnynt. Ym mis Mawrth 2019, mynychodd y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ddigwyddiad Gofod 3 y Trydydd Sector, gan ymweld â stondinau, siarad â mynychwyr a rhoi'r prif anerchiadau.

Mae cofnodion cyfarfodydd y Gweinidogion i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: [llyw.cymru/node/9279/latest-external-org-content](https://llyw.cymru/node/9279/latest-external-org-content)

## 2.4 Ymgynghoriadau

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i weithdrefnau ar gyfer ymgynghori ynghylch newidiadau polisi a datblygiadau polisi newydd sy'n effeithio ar y trydydd sector, yn cynnwys:

- cyfleoedd ar gyfer parhau i gynnal trafodaethau rhwng y Trydydd Sector, buddiannau gwirfoddoli a Llywodraeth Cymru er mwyn meithrin dealltwriaeth a chyfraniad cynnar at ddatblygu polisi
- trefniadau ymgynghori sy'n caniatáu digon o amser ar gyfer ymgynghori ehangach gyda rhwydweithiau a defnyddwyr gwasanaethau fel arfer
- cefnogi rôl cyrff ambarél a chyflogwyr wrth hwyluso ymgynghori
- rhoi adborth i ymatebwyr ynghylch ymatebion i ymgynghoriad a chanlyniadau'r ymgynghoriad
- cyfleoedd i'r sector barhau i gymryd rhan yn ystod camau gweithredu a gwerthuso'r polisi.

Cyhoeddwyd 85 o ymgynghoriadau rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Mae'r manylion ar wefan Llywodraeth Cymru yma:

[llyw.cymru/ymgyngoriadau?keywords=&field\\_consultation\\_status=2&All\\_=All&published\\_after=&published\\_before=&page=0](https://llyw.cymru/ymgyngoriadau?keywords=&field_consultation_status=2&All_=All&published_after=&published_before=&page=0)

Enghraifft o ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2018-19 lle'r oedd y trydydd sector wedi gallu cyfrannu at a dylanwadu ar ddatblygu polisi oedd yr ymgynghoriad ar **Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Gweithredu Cam 3 – Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig)**

Roedd yr ymgynghoriad hwn, a barodd o 24 Mai i 16 Awst 2018, yn gofyn am sylwadau ar Reoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

O'r 21 ymateb a dderbyniwyd gan y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, roedd 11 ymateb gan sefydliadau trydydd sector unigol – yn cynrychioli 54% o'r holl ymatebwyr.

Gallwch weld yr ymgynghoriad hwn drwy'r ddolen [llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-08/dogfen-ymgyngori-advocacy.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-08/dogfen-ymgyngori-advocacy.pdf) gyda'r ddogfen ymateb gysylltedig yn [llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-02/crynodeb-o%27r-ymatebion.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-02/crynodeb-o%27r-ymatebion.pdf)

Yn dilyn yr ymgynghoriad, comisiynodd Llywodraeth Cymru Weithgor, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r trydydd sector, i ystyried yr ymateb ac i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru.

Daeth Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 i rym ar 29 Ebrill 2019, gyda'r canllawiau statudol perthnasol wedi'u cyhoeddi yn Ebrill 2019. Mae'r canllawiau i'w gweld yma: [llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-gwasanaethau-eirioli-rheoleiddiedig](https://llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-gwasanaethau-eirioli-rheoleiddiedig).

## 2.5 Datblygu Polisi

O dan Gynllun y Trydydd Sector mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn ystyried goblygiadau unrhyw bolisiau newydd neu newidiadau i'r trydydd sector ar gam ffurfiannol. Mae'r ymgysylltu hwn â'r sector yn allweddol i lywio datblygiad polisi a helpu i lywio gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl yng Nghymru. Enghraifft o'r ymgysylltu hwn a'r manteision y gall ei gyflwyno'n ymarferol i gymunedau Cymru yw Fframwaith a Chynllun Gweithredu Hawl i Fyw'n Annibynnol.

# Astudiaeth achos

## Hawl i Fyw'n Annibynnol – Fframwaith a Chynllun Gweithredu

Cafodd fframwaith newydd Llywodraeth Cymru – Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol ei lansio gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ar 18 Medi 2019.

Gwelwyd nifer o ddatblygiadau sydd wedi effeithio ar bobl anabl yng Nghymru ers cyhoeddi'r fframwaith diwethaf yn 2013, felly cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu yn 2017 gyda phobl anabl, sefydliadau anabledd, darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys llawer o adrannau Llywodraeth Cymru, i adolygu'r fframwaith gwreiddiol ac ystyried y ffordd ymlaen.

Yn dilyn ymgynghoriad yn Hydref 2018 (gweler Adran 2.4 uchod), bu swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â sefydliadau rhanddeiliaid anabledd i gryfhau'r fframwaith a'r cynllun gweithredu.

Bu swyddogion yn gweithio gyda Grŵp Llywio Byw'n Annibynnol hefyd, a sefydlwyd i oruchwylio'r adolygiad o'r fframwaith, gan sicrhau bod y safbwyntiau a fynegir drwy ymgysylltu'n cael eu hystyried.

Roedd y Grŵp Llywio Byw'n Annibynnol yn cynnwys nifer o randdeiliaid i gynrychioli amryw o sefydliadau trydydd sector yn cynnwys Mencap, Anabledd Dysgu Cymru, Whizz Kidz, Plant yng Nghymru,

Leonard Cheshire, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar, MIND, Tai Pawb, RNIB, Guide Dogs Cymru, Cyngor Cymru i'r Deillion, Pobl yn Gyntaf Cymru, Action on Hearing Loss a Chanolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol. Cadeiriwyd y Grŵp Llywio gan Brif Weithredwr Anabledd Cymru.

Cylch gwaith y Grŵp Llywio oedd darparu canllawiau a chymorth arbenigol i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu'r blaenoriaethau ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol a nodir gan randdeiliaid, i'w cyhoeddi yn y fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Gweithredu Byw'n Annibynnol Cymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu newydd yn nodi amrywiaeth eang o gamau gweithredu sydd eisoes ar waith gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhai o'r prif rwystrau a nodwyd gan bobl anabl eu hunain yn cynnwys trafndiaeth, cyflogaeth, tai a mynediad i adeiladau a lleoedd. Cynlluniwyd y cynllun gweithredu mewn modd y gellir ei ddiweddarau i adlewyrchu amgylchiadau newidiol a datblygiadau newydd.

Mae Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol i'w weld yma:

[llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol-fframwaith-chynllun-gweithredu](http://llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol-fframwaith-chynllun-gweithredu)



### 3. Cyllid Llywodraeth Cymru a chefnogaeth ar gyfer y Trydydd Sector



Siediau Dynion y Rhyl – gwirfoddoli i wella iechyd meddwl, gwella eu sgiliau a helpu eraill i gael gwaith.

Trwy roi cyllid craidd i Cefnogi Trydydd Sector Cymru – sef partneriaeth sy'n cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r 19 o Gyngorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru – llwyddodd Llywodraeth Cymru i gefnogi Seilwaith y Trydydd Sector a fu, yn ystod 2018-19, yn cynrychioli, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r Trydydd Sector ar bob lefel, ynghyd â bod yn atebol iddo.

Roedd y gefnogaeth hon yn canolbwyntio ar 4 maes gweithgaredd allweddol; gwirfoddoli, llywodraethu da, cyllid cynaliadwy, ac ymgysylltu a dylanwadu gyda phartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Datblygiad newydd yn 2018-19 oedd **Adroddiad Effaith gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru**. Roedd hwn yn rhoi sylw i ail flwyddyn rhaglen newid uchelgeisiol y bartneriaeth a oedd yn canolbwyntio ar wella'r effaith roeddent yn ei chael fel partneriaeth yn cefnogi'r trydydd sector yng Nghymru i ffynnu.

Mae'r adroddiad, a oedd yn darparu data ac astudiaethau achos i ddangos effaith cefnogaeth Llywodraeth Cymru a Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn y 4 maes allweddol, wedi'i gyhoeddi yn [thirdsectorsupport.wales/wp-content/uploads/2019/11/Impact-report-2018-19.pdf](https://thirdsectorsupport.wales/wp-content/uploads/2019/11/Impact-report-2018-19.pdf)



Mae'r tabl hwn yn dangos rhai o'r effeithiau lefel uchel sy'n cael eu cyflawni gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru gyda chymorth Llywodraeth Cymru:

**Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) yn cynorthwyo mudiadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a gwirfoddoli ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.**

**4,175** o wirfoddolwyr wedi'u lleoli yn 2018-19

**222,928** o daflenni ar redeg a rheoli sefydliadau wedi'u lawrlwytho o wefannau TSSW

**33,722** o ymholiadau ynghylch arfer da o ran rheoli gwirfoddolwyr wedi'u hateb gan TSSW

**£7,487,493** wedi'i ddsbarthu ar ffurf grantiau i'r Trydydd Sector gan Lywodraeth Cymru ac eraill

**693** o ddigwyddiadau hyfforddi a dysgu wedi'u trefnu, gyda **8,445** o gyfranogwyr

I gael rhagor o wybodaeth am Cefnogi Trydydd Sector Cymru ewch i'w gwefan yn: [thirdsectorsupport.wales/cy/](http://thirdsectorsupport.wales/cy/)



CREST – cwmni cydweithredol cymunedol sy'n helpu pobl anabl a phobl ddi-waith i ddatblygu eu sgiliau a chael gwaith – naill ai o fewn y cwmni neu symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy yn y gymuned.

### 3.1 Cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn 2018-19

Dyraniadau	
Cefnogi Trydydd Sector Cymru – Cyllid craidd i Gynghorau Gwirfoddol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – gweler isod ar gyfer dyraniadau siroedd unigol	£4,464,695
Cronfa Gwirfoddoli Cymru	£1,271,112
Cymorth Diogelu'r Trydydd Sector	£114,500
Cronfa Newid y Trydydd Sector	£81,500
Cronfa Meithrin Gallu Partneriaeth – grantiau i rwydweithiau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector	£87,545
<b>CYFANSWM</b>	<b>£6,019,352</b>

Manylion Dyraniadau Cyllid Craidd i CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol unigol.

Rhanbarth	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol	Craidd	Rhanbarth
Betsi Cadwaladr (Gogledd)	Conwy	£152,481	£960,880
	Sir Ddinbych	£151,771	
	Sir y Fflint	£156,530	
	Gwynedd	£199,089	
	Ynys Môn	£148,573	
	Wrecsam	£152,435	
Hywel Dda (Gorllewin)	Sir Gaerfyrddin	£172,217	£480,667
	Ceredigion	£154,316	
	Sir Benfro	£154,134	
Powys	Powys	£315,957	£315,957
Abertawe Bro Morgannwg	Pen-y-bont ar Ogwr	£150,074	£497,428
	Castell-nedd Port Talbot	£152,193	
	Abertawe	£195,161	
Caerdydd a'r Fro	Caerdydd	£185,539	£350,270
	Bro Morgannwg	£164,731	
Cwm Taf	Merthyr Tudful	£144,824	£326,084
	Rhondda Cynon Taf	£181,260	
Gwent	Gwent	£583,797	£747,296
	Torfaen	£163,499	
<b>Is-gyfanswm Cynghorau Gwirfoddol Sirol</b>		<b>£3,678,582</b>	<b>£3,678,582</b>
<b>CGGC</b>		<b>£786,113</b>	
<b>Cyfanswm</b>		<b>£4,464,695</b>	

## 3.2 Cymorth arall ar gyfer y trydydd sector:

Nid cyllid Cefnogi Trydydd Sector Cymru oedd yr unig gyllid a ddarparwyd i sefydliadau'r trydydd sector ledled Cymru. Darparodd Llywodraeth Cymru gefnogaeth, cyllid craidd a chyllid prosiect i lawer o sefydliadau eraill y Trydydd Sector.

Mewn llawer achos, roedd y cyllid hwn yn ymwneud â maes arbenigol o waith a chytunwyd ar y cyllid gan Weinidog priodol Llywodraeth Cymru.

Yn 2018-19 dyfarnodd Llywodraeth Cymru £337 miliwn o gyllid uniongyrchol i'r trydydd sector.

Nid oedd hyn yn cynnwys gwariant caffael na thaliadau anuniongyrchol a wnaed i sefydliadau'r trydydd sector lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i sefydliad arall, er enghraifft awdurdod lleol, a allai fod wedi ariannu sefydliadau trydydd sector wedyn.

Mae **Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru** Llywodraeth Cymru yn gosod y fframwaith

a'r egwyddorion sy'n rhaid eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, ei chyrrff a noddir, GIG Cymru, ei chomisiynwyr, y Cyngor Gweithlu Addysg, Estyn ac is-gyrff Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

[gov.wales/docs/caecd/publications/160201-managing-money-cy.pdf](http://gov.wales/docs/caecd/publications/160201-managing-money-cy.pdf)

Mae **Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector** Llywodraeth Cymru (y Cod) yn rheoli sut y dylai Llywodraeth Cymru a'i hasiantau ymdrin â chyllid y trydydd sector.

Mae'r Cod yn egluro'r mathau o gyllid y mae Llywodraeth Cymru'n eu darparu, yr egwyddorion y dylid seilio penderfyniadau cyllido arnynt, a'r telerau a'r trefniadau ar gyfer cynnig cyllid.

[gov.wales/topics/people-andcommunities/communities/voluntarysector/publications/third-sectorscheme/?lang=cy](http://gov.wales/topics/people-andcommunities/communities/voluntarysector/publications/third-sectorscheme/?lang=cy)

Ni adroddwyd unrhyw achos o dorri'r Cod yn ystod y cyfnod adrodd hwn.



Chris a Pat o Glwb Nofio Barry Beavers. Gall pobl o bob oed ddod i Glwb Barry Beavers i gael therapi nofio mewn amgylchedd diogel a hapus.

## 4. Rhagor o Wybodaeth

I gael gwybodaeth am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector, ewch i: [gov.wales/topics/people-andcommunities/communities/voluntarysector/?lang=cy](http://gov.wales/topics/people-andcommunities/communities/voluntarysector/?lang=cy)

Adroddiad Effaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru 2018-19  
[thirdsectorsupport.wales/wp-content/uploads/2019/11/Impact-report-2018-19.pdf](http://thirdsectorsupport.wales/wp-content/uploads/2019/11/Impact-report-2018-19.pdf)

I gael gwybodaeth am wirfoddoli, ewch i [volunteering-wales.net/CY](http://volunteering-wales.net/CY)

neu ewch i'ch Canolfan Wirfoddoli neu eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.  
[www.wcva-ids.org.uk/?diablo.lang=cym](http://www.wcva-ids.org.uk/?diablo.lang=cym)

Fel arall, gallwch gysylltu ag Uned y Trydydd Sector yn [thirdsectorqueries@llyw.cymru](mailto:thirdsectorqueries@llyw.cymru)

I gael gwybodaeth am raglenni grant eraill, cysylltwch â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar 0300 1110124 neu ewch i'n gwefan [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

I gael rhagor o wybodaeth am Cefnogi Trydydd Sector Cymru, ewch i'w gwefan [thirdsectorsupport.wales/cy/](http://thirdsectorsupport.wales/cy/)



Gwnaeth Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin, sefydliad sy'n cael ei redeg gan ac ar gyfer oedolion ag anawsterau dysgu, ennill y wobwr iechyd, gofal cymdeithasol a lles yng Ngwobrau Trydydd Sector Cymru.



## Atodiad A (Tabl o Feysydd Diddordeb Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac Arweinwyr Rhwydweithiau)

Maes Diddordeb	Rhwydwaith
Cyngor ac Eiriolaeth	Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol
Lles Anifeiliaid	Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru
Y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth	Celfyddydau Gwirfoddol Cymru
Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Plant a Theuluoedd	Plant yng Nghymru
Cymuned	Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
Cyfiawnder Cymunedol	Community Justice Cymru
Anabledd	Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru
Addysg a Hyfforddiant	Addysg Oedolion Cymru
Cyflogaeth	Siawns Teg
Yr Amgylchedd	Cyswllt Amgylchedd Cymru
Lleiafrifoedd Ethnig	BAME Alliance
Rhywedd	Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Llesiant a Chwaraeon
Tai	Homes for All Cymru
Cyfryngwyr lleol a rhanbarthol	CVC Cymru
Rhyngwladol	Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Pobl Hŷn	Age Cymru
Crefydd	Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
Rhywioldeb	Stonewall Cymru
Menter Gymdeithasol	Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol
Chwaraeon a Hamdden	Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Gwirfoddoli	Rhwydwaith Gwirfoddoli Cymru
Y Gymraeg	Mentrau Iaith Cymru
Ieuenctid	Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru